Caerdydd Un Blaned

# Adolygiad Cynllun Gweithredu 2022




Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD




# Cyflwyniad



**Caerdydd Un Blaned - ymateb strategol i'r argyfwng hinsawdd.**


Mae'r newid yn yr hinsawdd eisoes yn llywio ein bywydau. Rydym yn byw mewn argyfwng hinsawdd gyda rhybuddion a thystiolaeth amlwg yn fyd-eang fod angen gweithredu ar frys os ydym am osgoi'r peryglon sydd o'n blaenau. Cymeradwywyd ein Strategaeth Caerdydd Un Blaned ym mis Rhagfyr 2021 ac mae'n nodi ystod eang o gamau gweithredu uchelgeisiol a fydd yn dechrau ffurfio sail i gynllun cyflawni i sicrhau dinas Carbon Niwtral. Ei nod yw gwneud hyn mewn ffordd sy'n cefnogi economïau gwyrdd newydd a lles gwell cymdeithasol yn y ddinas.

**Llinell Sylfaen Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Dinas Caerdydd (Data BEIS 2020)**




Dangosodd adolygiad blynyddol o'r Cynllun ym mis Rhagfyr 2022 fod cynnydd da eisoes yn cael ei wneud gyda gostyngiad o 13% yn allyriadau uniongyrchol y Cyngor ers 2019/20, a gostyngiad o 12% yn allyriadau dinas-gyfan Caerdydd rhwng 2019 a 2020.
Fodd bynnag, mae'r heriau lleihau carbon ar gyfer gweddill y degawd yn sylweddol.

**Cyfanswm Allyriadau Gweithredol tCO2e Cyngor Caerdydd** (Cwmpas 1 a 2) - gostyngiad o 13%




Mae'r adroddiad hwn yn diweddaru'r cynllun gweithredu Caerdydd Un Blaned, gan roi manylion am gyflawniadau, meysydd ffocws parhaus a meysydd ffocws newydd. Dylid ei ddarllen ar y cyd ag Adroddiad Cabinet mis Rhagfyr ar yr adolygiad o'r Strategaeth Caerdydd Un Blaned [dolen i adroddiad y Cabinet ar CUB yma]





# Adeiladau

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| **Effeithlonrwydd Ynni Ystadau:**<br>Gostyngiad o 18% ers 2019/20. Gostyngiad o 55% ers 2014.<br>Mae prosiectau adeiladau newydd ac ôl-ffitio peilot sero net ar waith.<br>Mae synwyryddion perfformiad/mesuriadau llinell sylfaen ar waith.<br>Mae rhaglen wedi'i chostio a chynllun gweithredu manwl ar Adeiladau'r Cyngor yn cael eu paratoi i'r Cabinet eu hystyried. | **Tai – 28% o ôl-troed y Ddinas**<br>Mae rhaglen fawr ar gyfer ôl-ffitio fflatiau'r Cyngor ar y gweill.<br>Mae cynlluniau grant yn cael eu datblygu gyda Llywodraeth Cymru a'r Rhanbarth.<br>Mwy o Dlodi Tanwydd a heriau'r argyfwng costau byw.<br>Mae angen estyn y tu hwnt i'r rheini sy'n profi tlodi tanwydd i gael effaith fawr ar y ddinas – gan drafod posibiliadau â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd ac eraill a chydnabod rôl y Llywodraeth.<br>**Datblygiad Masnachol:**<br>Mae Datganiad Safbwynt Polisi Cynllunio cryf ar waith.<br>Mae'r Newid yn yr Hinsawdd a Charbon wrth wraidd y Cynllun Datblygu Lleol newydd. |



# Symudedd

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
| --- | --- |
| **Allyriadau ar y cyd = 30% Cyfanswm Gweithredol y Cyngor**<br><br>**Fflyd:**<br>Mae cerbydau trydan bellach yn weithredol gan gynnwys 10 Cerbyd Gwastraff.<br>Mae seilwaith gwefru hefyd ar waith mewn safleoedd allweddol.<br>Strategaeth Fflyd ddiwygiedig yn cael ei pharatoi, gan anelu at newid yn llwyr i gerbydau allyriadau isel.<br><br>**Fflyd Lwyd:**<br>Mae adolygiad traws-awdurdod ar y gweill - mae angen archwiliad anghenion gweithredol ac archwiliad polisi AD.<br><br>**Cymudo:**<br>Mae cynllun Cymhellion Staff wedi'i ddatblygu.<br>Cysylltiadau â chynlluniau gweithio Hybrid a chyfarfodydd ar-lein.<br>Mae nifer fawr o staff yn gweithio mewn lleoliadau o hyd (yn enwedig ysgolion). | **Bron i 40% o Allyriadau'r Ddinas Gyfan**<br><br>**Papur Gwyn Trafnidiaeth:**<br>Mae Fflyd Bysus Trydan yn weithredol.<br>Bydd bron i 70 o wefrwyr cerbydau trydan cyhoeddus yn eu lle erbyn Gwanwyn 2023.<br>Mae'r strategaeth arafu traffig a blaenoriaethu beicwyr yn datblygu'n dda ond mae mwy i'w wneud dros y ddegawd nesaf.<br>Mae'r gwaith o drydaneiddio rheilffyrdd yn symud yn ei flaen.<br>Yn gofyn am newid sylweddol i ymddygiad pawb ochr yn ochr â mesurau caled, Cynlluniau Teithio Llesol Ysgolion, Siarter Teithio Llesol.<br><br>**Heriau mawr:**<br>Arian ar gyfer y Metro ac ymyriadau trafnidiaeth gyhoeddus sylweddol. |



# Cadwyn Gyflenwi a Chaffael

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
| --- | --- |
| **Yn fawr iawn o gymharu ag allyriadau eraill>80% o'r cyfanswm**<br><br>**Mae Strategaeth Gaffael Newydd ar waith:**<br>Carbon ac economi gylchol fel themâu canolog.<br>Rhybuddion i gadwyni cyflenwi y bydd Carbon yn ffactor gystadleuol wrth dendro cyn bo hir.<br><br>**Prosiectau Peilot – dileu elfennau carbon uchel:**<br>• Wynebau ffordd newydd sy'n garbon sero/isel.<br>• Prosiect peilot adeiladau ysgol newydd sero net.<br>• Disodli LED - adeiladau a goleuadau stryd.<br><br>**Y Camau Nesaf:**<br>Cyhoeddi proffiliau carbon/gwariant Cyfarwyddiaeth a datblygu dealltwriaeth ddyfnach o feysydd gwario ag effaith carbon uchel.<br>Dechrau cymorth hyfforddiant a llythrennedd carbon i Benwyr.<br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i wella methodoleg asesu effaith. | **Strategaeth Gaffael sy'n Gymdeithasol Gynaliadwy**<br>**Yn cefnogi ac yn ysgogi newid ehangach ymhlith cyflenwyr.**<br><br>**Dull partneriaeth Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus**<br><br>Mae uchelgeisiau a negeseuon cydlynol i'r farchnad yn cael eu hystyried gyda'n partneriaid yn y sector cyhoeddus yn y ddinas.<br><br>Rhwydwaith Arloesi Economi Gylchol yn cefnogi gwaith gydag ysgolion, prifysgolion a busnesau. |

# Ailgylchu a Gwastraff

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| **Nid yw hyn wedi cael llawer o sylw yn fframwaith carbon Llywodraeth Cymru,**<br><br>ac mae hyn yn golygu nad oes sylw'n cael ei roi i record drawiadol.<br><br>**Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwelliannau Pellach:**<br>• Cynyddu cyfraddau ailgylchu a symiau.<br>• Cynyddu cyfleoedd i ailgylchu.<br>• Gwella ansawdd yr ailgylchu a anfonir i'w ailbrosesu.<br>• Annog a chefnogi ailddefnyddio a thrwsio deunyddiau. | **Mae Cymru ymhlith yr arweinwyr ledled y byd**<br><br>Mae codi ymwybyddiaeth a chymorth newid ymddygiad yn angen cyson.<br><br>Ymgyrch newid ymddygiad mewn ysgolion ac yn ehangach.<br><br>Gwastraff Masnach.<br><br>Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i dreialu syniadau fel y cynllun dychwelyd poteli a chyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig. |




# Ynni

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| **Mae nifer sylweddol o baneli solar wedi'u gosod ar doeau,** gyda swp arall yn cael ei ddatblygu.<br><br>**Mae cynlluniau ar gyfer 2 gynllun ynni adnewyddadwy mawr newydd yn cael eu datblygu.**<br><br>Gallai un gyflenwi ynni uniongyrchol i weithrediadau a cherbydau yn Ffordd Lamby (effaith sylweddol bosibl). | **Mae Fferm Solar Ffordd Lamby wedi'i gwblhau**<br><br>Manteision datgarboneiddio i'r Grid a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff.<br><br>**Rhwydwaith Gwres Caerdydd**<br><br>Yn cael ei adeiladu - yn lleihau'r angen am nwy/trydan ar gyfer gwres yn y Bae.<br><br>**Ynni Llanw**<br><br>Mae Porth y Gorllewin a Phrifddinas-ranbarth Caerdydd yn ail-archwilio'r Achos. |



# Seilwaith Gwyrdd ac Addasu

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| **Coed Caerdydd**<br>Cynyddu canopi coed y ddinas gan 25%.<br>Effaith uniongyrchol lle mae'r plannu ar dir Cyngor.<br>Heriau o ran dod o hyd i le, adnodd rheoli hirdymor, a chofnodi effeithiau'n briodol (ar ôl i'r hyn a blannwyd aeddfedu). | **Coed Caerdydd**<br>Cynyddu canopi coed y ddinas gan 25%.<br>Mae gwaith partneriaeth cadarnhaol ac allgymorth gyda phlannu ar dir nad yw'n berchen i'r Cyngor ar y gweill – mae angen mwy o gyfleoedd, ac mae hyn yn cael ei archwilio.<br><br>**Cynlluniau Amddiffyn Rhag Llifogydd**<br>Mae Cynlluniau Draenio Trefol Cynaliadwy (SDCau) bellach yn dechrau ymddangos fel arfer safonol.<br>Mae cynlluniau pwrpasol wedi'u cyflawni (Grangetown Wyrddach, Sgwâr Canolog, Teras Cathays, ac ati).<br>Mae Strategaeth Amddiffyn Rhag Llifogydd wedi'i diweddaru yn cael ei datblygu. |







# Bwyd



| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| Strategaeth Fwyd:<br>Canolbwyntio ar Fwyd Ysgol.<br>Ierdydd Ysgol Llawn Bwyd.<br>Astudiaeth i optimeiddio manteision iechyd a charbon wrth gynllunio bwydlenni.<br>40 o welliannau cegin ysgol erbyn Nadolig 22. | Cynlluniau Tyfu'r Ddinas.<br>Treialu cyfleoedd tyfu cymunedol ar dir y Cyngor.<br>Prosiect arloesi gwerth £2.5m a ariennir gan P-RC ar gyfer "bwyd iach lleol".<br>Adolygiad o'r Polisi Cynllun Datblygu Lleol i nodi "diffeithdiroedd bwyd" ac ymateb polisi perthnasol. |



Caerdydd Un Blaned

# Newid Ymddygiad ac Ymgysylltu

| EFFAITH Y CYNGOR | EFFAITH Y DDINAS |
|---|---|
| **Ymwreiddio Carbon ym mhenderfyniadau'r Cyngor**<br>Cyfarfodydd lefel Prif Weithredwr i fynd i'r afael â materion cymhleth, trawsbynciol.<br><br>**Ymgysylltu â staff**<br>Hyfforddiant Llythrennedd Carbon.<br>Cymhellion teithio.<br>Hyfforddiant Pennwr.<br><br>**Ymgysylltu a Phobl Ifanc ac Ysgolion**<br>Addewid Ysgolion Un Blaned.<br>Cryfhau rhwydwaith o ymgynghorwyr a chymorth.<br>Cyngor Ieuenctid Caerdydd fel Pencampwyr.<br>Integreiddio'r Agenda Newid Hinsawdd i mewn i'r cwricwlwm. | **Bwrdd Argyfwng Hinsawdd y Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus**<br>Alinio strategaethau partner cyhoeddus, academaidd a chyfleustod.<br><br>**Ffocws ar gydweithio ar y canlynol:**<br>• Fflyd a Symudedd<br>• Caffael<br>• Ystadau a Seilwaith Gwyrdd<br>• Newid Ymddygiad<br>• Confensiwn Newid Hinsawdd<br>• Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer digwyddiad rhanddeiliaid mawr<br>• Ymgyrch Newid Ymddygiad<br><br>**Meysydd ffocws:**<br>1. Trafnidiaeth<br>2. Ynni a gwres<br>3. Gwastraff ac Ailgylchu<br>4. Bwyd |